



Cei Newydd, Ceredigion

"Mae Cei Newydd llawn hanes, ac yn ystod y 18fed ganrif, roedd yn enwog am ei smyglwyr! Byddai llongau oedd yn cludo llwythi anghyfreithlon i fewn i Gwmtedu a Chei Bach yn angori allan yn y môr, a ganol nos byddai cychod rhwyfo bychain yn mynd allan atynt i gasglu gwinoedd a gwirodydd."

NIGEL NICHOLAS, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU

Dechrau/Diwedd:

Harbwr Cei Newydd. Mae nifer o feysydd parcio talu ac arddangos yn nhref Cei Newydd.

Pellter:

5km / 3 milltir.

Taith gerdded estynedig: O Llanina Point yn nôl i harbwr Cei Newydd yn 3km / 2 filltir

Gwybodaeth:

Cychwynnch trwy gerdded i'r dwyrain ar hyd mur yr harbwr gan fwynhau golygfeydd allan i Fae Ceredigion. Wedyn anelwch am banel Llwybr Arfordir Cymru sydd o flaen y prif doiledau cyhoeddus. Defnyddiwch ap Llwybr Arfordir Cymru ar eich dyfais symudol (ffôn clyfar neu dabled) i weld bywydau cyfrinachol y smyglwyr a darganfod mwy am orffennol Cei Newydd. Yn bellach ymlaen ar lan y môr, cyrhaeddwch bwynt hanner ffordd swyddogol Llwybr Arfordir Cymru, lle mae cerflun o forwyn brydferth wnaiff chwythu cusan atoch i ddymuno'n dda i chi ar eich taith. Ymwelwch â Gorsaf Bad Achub Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI) a Chanolfan

Bywyd Gwylt Morol Bae Ceredigion. Cerddwch ar hyd y traeth lle cafodd cannoedd o slwpiâu, sgwneri a chychod eu hadeiladu tan i chi gyrraedd Pwynt Llanina gyda'i olygfeydd godidog nôl at 'y dref ar glogwyn'. Gallwch naill ai ddilyn yr un llwybr nôl neu droi mewn i'r tir ar hyd yr Afon Llethi a dychwelyd ar hyd y ffordd. Edrychwch am Majoda, byngalo erbyn hyn, ond cwt yn wreiddiol. Lle'r oedd Dylan Thomas yn byw a lle ysgrifennodd "Quite Early One Morning", a ddatblygodd yn Under Milk Wood.

Ar y ffordd...

Mae dolffiniaid a llamhidyddion harbwr Bae Ceredigion yn olygfa drawiadol... edrychwch yn ofalus ar ddiwrnod llonydd ac efallai y byddwch yn ffodus i'w gweld yn chwarae!

Cynlluniwch eich ymweliad:

DYLAN THOMAS: dylanthomas.com

GORSAF BAD ACHUB SEFYDLIAD CENEDLAETHOL BRENHINOL Y BADAU ACHUB: mli.org/find-my-nearest/lifeboat-stations/new-quay-lifeboat-station

TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS: traveline.cymru

GWEFAN DWIRISTIAETH: discoverceredigion.co.uk/Cymraeg

Cyn gadael:

Lawrlwythwch ap Llwybr Arfordir Cymru er mwyn profi'r ardal mewn Realiti Estynedig.

